# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**11.15 y.b., DYDD LLUN, 11EG TACHWEDD, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 1 Tachwedd 2024)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes

John Brynmor Hughes

Elfed Williams (Cadeirydd)

Edgar Wyn Owen (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 7

CLWB RYGBI Y BALA, MAES GWYNIAD, HEOL TEGID, BALA LL23 7DZ

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o’r pedwar egwyddor i’w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **11fed o Dachwedd 2024** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CLWB RYGBI Y BALA, MAES GWYNIAD, HEOL TEGID, BALA LL23 7DZ** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Clwb Rygbi Y Bala, Maes Gwyniad, Heol Tegid, Bala LL23 7DZ sydd wedi ei gyflwyno gan y clwb. Clwb yn cynnwys ystafelloedd newid, cegin as ystafell gyffredinol wedi ei leoli ar gyrion tref Y Bala. Y bwriad yw gallu gwerthu alcohol yn ystod gemau drwy'r tymor rygbi rhwng mis Medi a Mai hefo y mwyafrif o ddefnydd ar y penwythnos.

1.2 Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo i: Werthu alcohol (ar yr eiddo) o 09:00 – 23:00, o ddydd Llun i Sul.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** |
|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo :: On the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday: 09:00 - 23:00<br>Dydd Llun/Monday: 09:00 – 23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 09:00 – 23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 09:00 – 23:00<br>Dydd Iau/Thursday: 09:00 – 23:00<br>Dydd Gwener/Friday: 09:00 – 23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 09:00 – 23:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Hyrwyddo defnydd cyfrifol o alcohol a bod cwsmeriaid yn gadael yr adeilad yn barchus.
- Delio yn syth gydag unrhyw ymddygiad anghymdeithasol.
- Polisi her 25 mewn lle

- Dim goddefiant tuag at ddefnydd o gyffuriau.
- Dim goddefiant tuag at ymddygiad bygythiol a throseddol.
- Asesiadau risg wedi eu cwblhau a'u adolygu yn rheolaidd gan gynnwys risg tan.
- Cadw drysau a ffenestri ar gau pan fo'n bosibl i leihau sŵn.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad - Sylwadau |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Tîm Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Llygredd Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Cynllunio | Dim gwrthwynebiad |
| Cynghorwr Dilwyn Morgan | Dim gwrthwynebiad |
| Aelodau o'r cyhoedd | 14 o wrthwynebiadau |
| Cyngor Tref Y Bala | Cefnogi hefo amodau |

**Sylwadau Cyngor Tref Y Bala**

3.1 Mi drafodwyd yn cais am drwydded eiddo i'r Clwb Rygbi mewn cyfarfod o'r Cyngor Tref. Roedd rhai yn bryderus am effaith y datblygiad ar drigolion Glannau Tegid a Threm y Ffridd, sydd wedi eu lleoli yn agos at y Clwb Rygbi.

3.2 Penderfyniad terfynol Y Cyngor Tref oedd i gefnogi'r cais yn amodol ar addasu'r oriau a ganiateir, ac argymhelliad y cyngor oedd y dylai'r oriau gael eu cyfyngu i 1pm – 9pm.

## 4 Sylwadau'r Cyhoedd

4.1 Mae pryder mawr y bydd caniatáu y clwb i werthu alcohol yn creu ymddygiadau gwrth-gymdeithasol yn yr ardal.

4.2 Pryderon am aflonyddwch oherwydd cerbydau yn mynd a dod bob awr o'r diwrnod a cwsmeriaid yn mynd a dod o'r clwb.

4.3 Mae problemau parcio yn bodoli pa fo gweithgareddau ymlaen yn y clwb yn barod. Poeni y bydd y problem yma yn cynyddu os fydd pobl yn aros yno yn hwyrach. .

4.4 Mae'r clwb wedi ei leoli yn agos at Lyn Tegid a'r rheilffordd arfaethedig, sydd yn codi pryderon dros diogelwch y cyhoedd os ydynt yn cerdded adref yn feddwol.

4.5 Pryderon y bydd cynyddiad mewn achosion o fandaleiddio eiddo cyfagos i'r clwb.

## 5 Sylwadau'r Heddlu

5.1 Mae'r safle hon wedi gweithredu gwerthu alcohol drwy defnyddio Rhybudd Digwyddiad Dros Dro ar sawl achlysur heb beri pryder.

5.2 Nid oes unrhyw ddigwyddiad o Drosedd ac Anrhefn yn gysylltiedig a'r safle hwn felly ar ran Heddlu Gogledd Cymru rwy'n falch i ddweud nad oes gennym

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried sylwadau yr ymatebwyr, ac ymateb yr ymgeisydd i'r pryderon – ac yn caniatáu'r cais.**

- **Ni dderbyniwyd cwynion gan yr Awdurdod Trwyddedu nac Uned Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn sawl digwyddiad a ganiateir yn defnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro .**